**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 9 Tachwedd 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | C A Holley | M W Locke |
| M Bailey | P R Hood-Williams | N L Matthews |
| M Baker | B Hopkins | P M Matthews |
| P N Bentu | D H Hopkins | P N May |
| P M Black | L James | J D McGettrick |
| A Davis | O G James | F D O'Brien |
| A M Day | Y V Jardine | A J O'Connor |
| P Downing | A J Jeffery | D Phillips |
| C R Doyle | D H Jenkins | C L Philpott |
| M Durke | J W Jones | J E Pritchard |
| C R Evans | L R Jones | S Pritchard |
| V M Evans | M H Jones | S J Rice |
| E W Fitzgerald | M Jones | B J Rowlands |
| R Fogarty | S M Jones | R V Smith |
| R Francis-Davies | S Joy | A H Stevens |
| N Furlong | S E Keeton | R C Stewart |
| L S Gibbard | E J King | W G Thomas |
| F M Gordon | E T Kirchner | M S Tribe |
| K M Griffiths | A S Lewis | G D Walker |
| H J Gwilliam | M B Lewis | L V Walton |
| T J Hennegan | W G Lewis | T M White |
| V A Holland | P Lloyd | R A Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A Anthony, C M J Evans, J A Hale, H Lawson, R D Lewis, K M Roberts a/ac L G Thomas

---

## 55. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, M Bailey, P N Bentu, P M Black, J P Curtice, A Davis, A M Day, P Downing, C R Doyle, M Durke, C R Evans, V M Evans, E W Fitzgerald, R A Fogarty, R Francis-Davies, N Furlong, L S Gibbard, F M Gordon, K M Griffiths, H J Gwilliam, , T J Hennegan, V A Holland, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, L James, O G James, Y V Jardine, A J Jeffrey, D H Jenkins, J W Jones, L R Jones, M H Jones, M Jones, S M Jones, S A Joy, S E Keeton, E J King, E T Kirchner, A S Lewis, M B Lewis, W G Lewis, P Lloyd, M W Locke, N L Matthews, P M Matthews, P N May, J D McGettrick, F D O'Brien, A O'Connor, D Phillips, C L Philpott, J E Pritchard, S Pritchard, S J Rice, B J Rowlands, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, W G Thomas, M S Tribe, G D Walker, L V Walton, T M White ac R A Williams gysylltiad personol â Chofnod 36, "Polisi Lwfansau TGCh y Cynghorwyr - Mai 2022 a thu hwnt”.

## 56. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2023.

## 57. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 58. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Cydymdeimladau

#### i) Margaret Smith - Cyn-gynghorydd, Cyn-Arglwydd Faer a Henadur Anrhydeddus

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Margaret Smith. Roedd Margaret Smith yn Gyn-gynghorydd, cyn Arglwydd Faer 2004-2005, ac yn Henadur Anrhydeddus.

Cynrychiolodd Margaret Smith Ward Pennard am tua 30 o flynyddoedd ar:

- Gyngor Dinas Abertawe 1976 - 1996.
- Dinas a Sir Abertawe 1995 - 2012.

**ii) Adeline Evans, Mam y Cynghorydd Chris Evans**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Adeline Evans, mam y Cynghorydd Chris Evans.

Safodd pawb a oedd yn bresennol mewn distawrwydd fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**b) Adolygiad Cymunedol Abertawe**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnal adolygiad o ffiniau cymunedau Abertawe. Agorodd y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol ar 25 Medi 2023 ac mae'n cau ar 19 Tachwedd 2023. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ar gael ar-lein yn www.cffdl.llyw.cymru/arolygon/09-23/swansea-community-review

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i consultations@boundaries.cymru neu Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, Hastings House, Fitzalan Place, Caerdydd CF24 0BL.

**c) Adolygiad Dosbarth Etholiadol a Man Pleidleisio 2023**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod y Swyddog Canlyniadau'n cynnal Adolygiad Dosbarth Etholiadol a Man Pleidleisio 2023. Agorodd y Cyfnod Ymgynghori ar 8 Tachwedd 2023 ac mae'n cau ar 20 Rhagfyr 2023. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ar gael ar-lein yn https://swansea.gov.uk/article/25356/Review-of-Polling-Districts-and-Polling-PlacesStations-2023

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at etholiadau@abertawe.gov.uk neu drwy lenwi ffurflen ar-lein https://online1.snapsurveys.com/pollingdistrictreview

## 59. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**a) Cronfa Bwyd y Gwyliau**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, tua diwedd tymor yr haf, fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddant yn parhau â'r ymrwymiad dros dro i brydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r haf. Ymatebodd y cyngor yn gyflym i'r her drwy sefydlu Cronfa Bwyd y Gwyliau i helpu teuluoedd sy'n cael trafferth gyda chaledi a'r argyfwng Costau Byw i ddarparu bwyd i blant oed ysgol yn ystod gwyliau'r haf.

Dyrannodd y cyngor gyllid a Swyddogion o'r Tîm Trechu Tlodi a'r Tîm Partneriaethau a Chomisiynu a ddaeth at ei gilydd yn gyflym i ddatblygu cronfa newydd, a lansiwyd ar 1 Awst 2023, a thargedwyd dros 130 o wasanaethau mewnol, partneriaid a sefydliadau cymunedol presennol sydd wedi gweithio gyda theuluoedd a phlant oed ysgol i helpu i liniaru tlodi bwyd

plant ac ansicrwydd bwyd yn ystod gwyliau haf yr ysgol eleni. Cefnogwyd y Tîm gan gydweithwyr yn y Tîm Gwe a Chyfathrebu i gefnogi'r mynediad digidol at y gronfa.

Roedd y canlyniadau mewn cyfnod mor fyr yn anhygoel. Trwy broses asesu a chymeradwyo dreigl, llwyddodd 43 o geisiadau yn ystod mis Awst, gan arwain at ddyrannu £140,080.27 ar gyfer sefydliadau ar draws cymunedau Abertawe, gan gynnwys defnyddio parseli bwyd, bwyd ar gyfer digwyddiadau lleol, gweithdai coginio a thalebau bwyd. Roedd hyn yn cyfateb i dros 65,000 o brydau bwyd i blant oed ysgol yn ystod gwyliau'r haf.

Arddangosodd hyn bartneriaethau cydweithredol rhagorol ein timau gyda sefydliadau cymunedol ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod nifer o adrannau wedi cydweithio'n gyflym i sicrhau bod y gefnogaeth fawr ei hangen yn cyrraedd miloedd o deuluoedd a phobl ifanc.

Gan adeiladu ar lwyddiant yr ymagwedd hon yn yr haf, mae'r un cydweithwyr wedi lansio 'Cronfa Galluogi Cymunedau 2023/24' yn ddiweddar i ddarparu gweithgareddau, bwyd gwyliau ysgol a mannau croesawgar cynnes yn Abertawe'r gaeaf hwn.

Roedd nifer o swyddogion o'r tîm yn bresennol: Anthony Richards, Yvonne Bennett, a Sian Denty (Tîm Trechu Tlodi) a Mark Gosney, Stephen Cable, Spencer Martin a Lisa Evans (Tîm Comisiynu a Phartneriaethau). Diolchodd i'r rhai a oedd ynghlwm â Chronfa Bwyd y Gwyliau.

**b) Dydd y Cofio a Gwrthdaro Presennol**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Abertawe'n falch o'i statws fel Dinas Noddfa ac i fod yn Ddinas Hawliau Dynol gyntaf Cymru. Dywedodd, wrth i ni baratoi i nodi penwythnos y Cofio, ei fod yn gyfle amserol i droi ein meddyliau at y rhai sy'n cael eu dal mewn gwrthdaro ar draws y byd.

Rydym i gyd yn drist iawn i glywed am ddigwyddiadau yn Israel a Gaza. Mae Israeliaid a Phalestiniaid yn dioddef yn ofnadwy, ac mae ein meddyliau gyda phawb sydd wedi'u heffeithio gan y gwrthdaro hwn. Yn yr Wcráin, mae cymaint o fywydau'n parhau i gael eu colli ac mae nifer o drefi, dinasoedd a chymunedau'n cael eu chwalu.

Fel cynrychiolwyr pobl Abertawe, rydym i gyd yn meddwl am y rhai yr effeithir arnynt gan y gwrthdaro hyn a'r nifer o achosion eraill o wrthdaro sy'n digwydd ar draws y byd. Heno, caiff Neuadd y Ddinas heno ei goleuo yn lliwiau Baner Heddwch y Byd.

Byddwn yn parhau i gydweithio â'n holl gymunedau a grwpiau ffydd i gefnogi pawb yr effeithir arnynt, a'r rhai yn ein dinas sy'n poeni am eu teulu a'u ffrindiau.

Safodd pawb am funud o dawelwch dros ddioddefwyr gwrthdaro yn y gorffennol a'r presennol.

**c) Gyda'n gilydd dros y Nadolig**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd y digwyddiad Gyda'n Gilydd dros y Nadolig yn dychwelyd i Neuadd Brangwyn ddydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023. Anogodd aelodau i'w gefnogi ac i helpu.

## 60. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 61. Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2022/23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu drafft o Adolygiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022-2023. Mae'r adroddiad yn bodloni'r gofyniad statudol i gyhoeddi hunan-asesiad blynyddol ac adroddiad lles blynyddol o dan Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu trefn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cyhoeddi'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2022-2023.

## 62. Cynnig i dderbyn penderfyniad newydd i beidio â chyflwyno trwyddedau casino a diwygiadau arfaethedig i Bolisi Gamblo'r Cyngor

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio ystyried canlyniad yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynnig i gymeradwyo penderfyniad newydd i beidio â rhoi trwyddedau mangre casino; a diwygiadau arfaethedig i Ddatganiad o Egwyddorion (Polisi Gamblo) Dinas a Sir Abertawe. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio penderfyniad ynghylch cymeradwyo penderfyniad newydd i beidio â rhoi trwyddedau mangre casino.

**Penderfynwyd:**

1) Ystyried canlyniad yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynnig i gymeradwyo penderfyniad newydd i beidio â rhoi trwyddedau mangre casino a diwygiadau arfaethedig i Ddatganiad Egwyddorion Dinas a Sir Abertawe (Polisi Gamblo).

2) Ystyried y materion a nodir ym Mharagraff 4 yr adroddiad a chytuno ar benderfyniad newydd i beidio â rhoi trwyddedau mangre casino.

3) Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Gamblo i'w gyhoeddi a nodi 7 Rhagfyr 2023 fel y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym.

**Sylwer:** Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai'n trefnu Seminar ar gyfer Cynghorwyr i amlinellu gwaith yr Adran Drwyddedu a'r Pwyllgor Trwyddedu.

## 63. Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2022 a thu hwnt.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio diwygio Polisi Lwfansau TGCh y

Cynghorwyr - Mai 2022 a thu Hwnt. Y cynnig yw caniatáu i Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig Statudol hawlio eu Lwfans TGCh yn uniongyrchol gan y cyngor cyn i'r eitem(au) gael eu prynu. Nod y cynnig hwn yw atal caledi ariannol gan roi cydraddoldeb i bawb.

Cynigiodd yr adroddiad hefyd ychwanegu adran, gan awgrymu bod Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig Statudol yn yswirio eu hoffer TGCh rhag difrod.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyir y diwygiadau i Baragraffau 6.2, 6.6, 9.3 ac Atodiad 1 i Bolisi Lwfansau TGCh y Cynghorwyr - Mai 2022 a thu hwnt fel yr amlinellir yn yr adroddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau canlyniadol eraill.

2) Cyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig ar wefan y cyngor a'i rhannu â'r holl Gynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig Statudol.

## 64. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn hysbysu'r cyngor o ddiwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd y diwygiadau'n ymwneud â phenderfyniad gan y cyngor ar 7 Medi 2023 i ddiwygio'r Cynllun Deisebau, a chreu Pwyllgor Deisebau. Roedd yr adroddiad yn ceisio sefydlu'r Pwyllgor Deisebau, gan nodi ei faint, ei aelodaeth, a'i gylch gorchwyl. Mae hefyd yn diwygio'r Cynllun Deisebau.

**Penderfynwyd:**

1) Creu Pwyllgor Deisebau sy'n cynnwys 9 Cynghorydd yn unol â chymesuredd y Pwyllgor.

2) Caiff Cynghorwyr eu neilltuo i wasanaethu ar Gyrff y Cyngor yn unol â'r enwebiadau a dderbyniwyd gan Grwpiau Gwleidyddol. Y Cynghorwyr yw P M Black, O G James, D H Jenkins, S E Keeton, A J O’Connor, S Pritchard, S J Rice, M S Tribe & T M White.

3) Cymeradwyo Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Deisebau fel a amlinellwyd:

***"Y Pwyllgor Deisebau***

1. *Derbyn ac ystyried Deisebau sy'n bodloni'r meini prawf yng Nghynllun Deisebau'r Cyngor (ac eithrio Deisebau y mae'n rhaid eu cyfeirio'n uniongyrchol at gorff arall o dan y cynllun).*

2. *Gwneud adroddiad sy'n amlinellu casgliadau, sylwadau, argymhellion etc mewn perthynas â'r Ddeiseb i Aelod y Cabinet, y Cabinet neu'r Swyddog perthnasol.*

3. *Nodi a gwahodd cynrychiolydd/cynrychiolwyr o sefydliadau eraill i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Deisebau yn ôl yr angen i gynnig gwybodaeth neu i gynghori/annerch y Pwyllgor ar faterion sy'n peri pryder.*

*4. Mae amlder y cyfarfodydd yn fater i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau gan ddibynnu ar lwyth gwaith; Fodd bynnag, rhagwelir y bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn ôl y gofyn i ystyried Deisebau."*

4) Dileu Adran 10 y Cynllun Deisebau yn ei gyfanrwydd a rhoi'r canlynol ar waith yn ei lle:

***“10. Beth sy'n digwydd yn y Pwyllgor Deisebau?***

*10.1 Unwaith y bydd eich deiseb wedi'i chymeradwyo, bydd dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei nodi. Bydd hyn yn dibynnu ar lwyth gwaith y Pwyllgor a'r amser a gymerir i gwblhau'r broses ddilysu.*

*10.2 Gellir gwahodd y canlynol i'r Pwyllgor Deisebau:*
- *i) Y Prif Ddeisebydd a tua dau gefnogwr.*
- *ii) Cynghorydd(wyr) Ward Lleol.*
- *iii) Y Deiliad Portffolio'r Cabinet perthnasol,*
- *iv) Y swyddogion perthnasol.*

***Sylwer:** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau'n cadw'r hawl i ddiwygio'r rheini a wahoddir fel bo'n briodol iddo.*

*10.3 Pwy all siarad yn y Pwyllgor Deisebau:*
- *i) Gall y Prif Ddeisebydd neu un o Gefnogwyr y Ddeiseb siarad mewn perthynas â'r Ddeiseb.*
- *ii) Y Cynghorydd(wyr) Ward Lleol*
- *iii) Y Deiliad Portffolio'r Cabinet perthnasol.*
- *iv) Mae gan y Prif Ddeisebydd neu un o gefnogwyr y ddeiseb, y Swyddog perthnasol a'r Deiliad Portffolio'r Cabinet perthnasol hawl terfynol i roi crynodeb ar ddiwedd y ddadl ar y mater. Byddai ganddynt hyd at **2 funud** yr un fel arfer.*

***Sylwer:** Mae gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ddisgresiwn absoliwt mewn perthynas â hyd areithiau.*

*10.4 Gall Cynghorwyr ar y Pwyllgor Deisebau ofyn cwestiynau mewn perthynas â'r mater(ion) a godwyd yn y Ddeiseb.*

*10.5 Ar ôl ystyried y ddeiseb, bydd y Pwyllgor Deisebau yn gwneud penderfyniad ynghylch y camau gweithredu i'w cymryd fel a ganlyn:*
- *i) Cytuno bod angen camau gweithredu pellach ar gyfer y mater(ion) a godwyd a chytuno i gyfeirio'r ddeiseb i Aelod y Cabinet, y Cabinet, Corff y Cyngor neu'r Swyddog perthnasol.*
- *ii) Cytuno nad oes angen camau gweithredu pellach ar y mater(ion) a godwyd.*

*10.6 Fe'ch cynghorir ynghylch penderfyniad y pwyllgor yn ysgrifenedig o fewn 10 niwrnod gwaith clir o gyfarfod y Pwyllgor Deisebau.”*

## 65. Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Materion Cynllunio.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn hysbysu'r cyngor o ddiwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Nododd yr adroddiad yr wybodaeth ddiweddaraf yng Nghyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â newidiadau i ddeddfwriaeth.

**66. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A’**

Cyflwynwyd pymtheg (15) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 1**

Gofynnodd y Cynghorydd W G Thomas, "Beth oedd y gost i'r cyngor ar gyfer y cynllun peilot i ddefnyddio Cerbydau Casglu Sbwriel Trydan?"

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Cwestiwn 4**

Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald, "Pam nad yw'r cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag anghysondebau rhwng ei deddfwriaeth a'i Pholisïau a'i Arweiniad Cynllunio? Mae angen mynd i'r afael â'r gwrthddywediadau hyn."

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) Rhan B ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd naw (9) cwestiwn Rhan B 'Cwestiynau nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer’.

**67. Hysbysiad o Gynnig - Toriadau i Wasanaethau Bws.**

Mae'r Hysbysiad o Gynnig gwreiddiol wedi'i amlinellu isod.

*“Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda chynghorau lleol yng Nghymru i sefydlu ein cwmnïau bysiau ein hunain.*

*Mae angen i ni ddeall bod toriadau i wasanaethau'n cael effaith ar y gwasanaethau hanfodol i bawb ar draws Cymru, i bobl sy'n ceisio cyrraedd y gwaith, a gofal iechyd y mae'r gwasanaethau'n ei gefnogi.*

*Mae'n ddrwg gennym am y rownd bresennol o doriadau a roddir ar waith gan weithredwyr bysus preifat a fydd yn effeithio ar y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas.*

*Gofynnwn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu i gefnogi'r Prif Weinidog."*

Cyn y cyfarfod, cyflwynodd y Grŵp Llafur Gynnig diwygiedig, a dderbyniwyd gan y cynigwyr gwreiddiol. Y cynnig isod oedd y cynnig gwreiddiol.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd C A Holley a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Rydym yn nodi Bil Bysus Llywodraeth Cymru sydd ar ddod. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda chynghorau lleol yng Nghymru i sefydlu ein cwmnïau bysiau ein hunain.*

*Mae angen i ni ddeall bod toriadau i wasanaethau'n cael effaith ar y gwasanaethau hanfodol i bawb ar draws Cymru, i bobl gyrraedd y gwaith, a gofal iechyd y mae'r gwasanaethau'n eu cefnogi.*

*Mae'n ddrwg gennym am y rownd bresennol o doriadau a roddir ar waith gan weithredwyr bysus preifat a fydd yn effeithio ar y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas.*

*Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid canlyniadol i Gymru, fel y gwnaed i'r Alban a Gogledd Iwerddon, o brosiect HS2. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth yng Nghymru a gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gwell."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.50 pm

**Cadeirydd**